# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-19-08)

### SLC192

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Diwygio) (Cymru) 2008

Rhoddodd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 (O.S. 1999/293) ("Rheoliadau 1999") ar waith, yng Nghymru a Lloegr, Gyfarwyddeb y Cyngor 85/337/EEC ("Cyfarwyddeb AEA") ar asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd (O.J. Rhif L175, 5.7.1985, t.40) fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 97/11/EC (O.J. Rhif L73, 14.3.1997, t.5). Diwygiwyd y Gyfarwyddeb AEA hefyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2003/35/EC (O.J. Rhif L156, 25.6.2003, t.17).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1999 er mwyn rhoi'r Cyfarwyddebau ar waith o ran ceisiadau am gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl a cheisiadau am gymeradwyo amodau tebyg sydd ynghlwm wrth roi caniatadau cynllunio ("ceisiadau dilynol"). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfynu ar Apelau gan Bersonau Penodedig) (Dosbarthau Rhagnodedig) 1997 sy'n rhagnodi'r dosbarthau ar apêl sydd i'w penderfynu gan bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru yn unol â darpariaethau Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn lle cael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru. Mae'n allgáu o'r dosbarthau ar apêl a gedwir yn ôl, apelau gorfodi sy'n ymwneud â datblygiad anawdurdodedig y mae'r Gyfarwyddeb AEA yn gymwys iddo.

### Gweithdrefn: Negyddol

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar sail yr hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2(vi), sef ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol:-

Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn datgan yn anghywir bod "Rheoliadau ... 1999 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 11", pan ddylai Rheoliad 2 mewn gwirionedd ddatgan bod "Rheoliadau ... 1999 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 12".

Mae Rheoliad 9 (3) yn y fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio yn anghywir at y "ceisiadau perthynol i adolygu ceisiadau cynllunio mwynol" sy'n golygu "applications which relate to/relating to review of mineral planning

applications". Yn hytrach na chyfeirio at "ceisiadau", mewn gwirionedd dylai gyfeirio at "caniatadau".

Gwahoddir y Cynulliad hefyd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar sail yr hyn a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2 (vii), sef ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg oherwydd bod rheoliad 9 (3) o'r fersiwn Saesneg yn cyfeirio at "ROMP applications", tra bo rheoliad 9 (3) o'r fersiwn Gymraeg yn cyfeirio at y "ceisiadau perthynol i adolygu ceisiadau cynllunio mwynol". Yn hytrach na chyfeirio at "ceisiadau", mewn gwirionedd dylai gyfeirio at "caniatadau".

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
Medi 2008

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Rheoliad 2

Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod gwall wedi digwydd fel a nodir. Er hynny, gan mai mân wall teipograffyddol ydyw, mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn briodol i'w gywiro naill ai wrth gyhoeddi neu drwy slip cywiro.

Rheoliad 9(3)

Derbynnir y pwynt adrodd. Er hynny, bwriad y cymal o dan sylw yw dyfynnu'n unig, er hwylustod y darllenydd, bennawd y ddarpariaeth y mae rheoliad 9(3) yn ei diwygio. Rhoddir rhif y ddarpariaeth honno hefyd, yn gywir, yn y ddau destun. Gan fod y ddarpariaeth a ddiwygir mewn offeryn cyn cyfnod datganoli, mae'r pennawd iddi yn Saesneg yn unig (wedi ei ddyfynnu'n gywir yn y testun Saesneg), ac felly ni all y testun Cymraeg ond rhoi pennawd cyfatebol beth bynnag. Gan gofio'r cyd-destun hwn, mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw'r gwall yn un o arwyddocâd sylweddol. Er hynny, gan fod y Llywodraeth yn bwriadu gwneud diwygiadau pellach i ddarpariaethau ROMP yn hwyrach yn y flwyddyn, bydd yn gwneud cywiriad ar yr adeg honno.